

Irene Kirstein Watts - trawsgrifiad

Ond rydych chi'n gweld, yr anhawster oedd, wedi symud gwledydd, wedi dysgu iaith newydd, ond doedden ni byth yr un fath â'r lleill.

Roedd hynny'n anodd iawn, iawn a byddai pobl yn eich cymryd chi i mewn, ond byddai'n rhaid i chi fod mor dda ac ymddwyn mor dda—a doedden nhw ddim yn gartrefi Iddewig ychwaith—a dysgu ffyrdd newydd o ymddwyn a bywd newydd.

A chael yng nghefn eich meddwl, os nad ydych yn ymddwyn yn dda iawn, chi'n gwybod, os nad ydych yn plesio'r bobl sydd wedi rhoi cartref i chi, yna gallech chi gael eich hel oddi yno.

[...]

Ar ôl y rhyfel, penderfynwyd y dylwn aros gyda'r ysgol a gadael Cymru a chefais fynd i fyw gyda theulu maeth yn Llundain lle cefais fy nhrin yn ofnadwy. Cefais fy ngalw'n 'Natsi' ac yn 'ysbïwr' ac ni chefais ddigon i'w fwyta.

Hynny yw, roedd yn gam-drin meddyliol go iawn, a chredaf ei fod wedi fy nghreithio.

[...]

Roedd yn rhaid ichi weithio cymaint â hynny'n galetach i gael eich derbyn. Roedd y bobl hynny'n siarad geiriau teg er mwyn bod yn garedig, ond oddi tano roedd yna bob amser, wyddoch chi, rydych chi'n wahanol a gydag enw fel Kirstein... wnes i hyd yn oed roi'r gorau i'w ddweud. Meddai, 'Beth yw dy enw?' Byddwn yn sefyll i fyny a byddwn yn ei sillafu'n iawn oherwydd roedd hynny'n broblem.

Rydyn ni bob amser yn wahanol. A phe bai rhywun yn dweud wrthyf, 'Beth yw'r peth anoddaf am oroesi?', a hyd heddiw, nid wyf erioed wedi dod o hyd i ateb mewn gwirionedd, nid ydych chi'n gwybod pwy ydych chi ac nid ydych chi'n gwybod ble rydych chi'n perthyn.

[...]

Hyd yn oed nawr os byddaf yn siarad â ffrindiau a'u bod yn siarad am eu bywyd teuluol a sut yr oedd pethau, nid oes gennyf unrhyw fodd o gymharu.

Fe wnes i fagu fy mhlant o 'mhen a'm pastwn fy hun, oherwydd doeddwn i ddim yn gwybod sut beth oedd bywyd teuluol go iawn ac rwy'n siŵr fy mod wedi gwneud nifer fawr o gamgymeriadau oherwydd doeddwn i ddim yn gwybod.